

MOSTYN

Pecyn adnoddau ar gyfer ysgolion a theuluoedd
Oedran 7+



Kiki Kogelnik Riot of Objects

14eg Mawrth - 1af Tachwedd 2020

Kiki Kogelnik
Untitled (Sea Monster), c. 1974.
Cerameg gwydrog.
Trwy garedigrwydd Kiki Kogelnik Foundation.
© 1974 Kiki Kogelnik Foundation.
Cedwir pob hawl.



mostyngallery



mostyn_wales_



mostyngallery

Artist o Awstria oedd Kiki Kogelnik (1935-1997), a weithiodd gyda phaentio, cerflunio a pherfformio. Astudiodd yn yr Academy of Fine Arts Vienna. Ar ôl ymweld ag Efrog Newydd ym 1960, penderfynodd ymgartrefu yno'r flwyddyn ganlynol yn 26 oed.

Mae llawer o waith Kogelnik yn canolbwyntio ar y corff dynol. Yn y 1960au dechreuodd arlunio cyrff a gwneud toriadau o silwetau. Yn y 1970au creodd gyfres o waith o'r enw *Hanging*, a oedd yn cynnwys silwetau finyl wedi'u gosod dros gambrenni (coat hangers). Roedd ganddi ddiddordeb hefyd mewn technolegau a deunyddiau newydd, peiriannau a rocedi gofod, pob un ohonynt yn ymddangos yn ei gwaith celf.

Pan gyrhaeddodd Efrog Newydd, roedd Celf Pop wedi dod yn arddull artistig allweddol ac, er nad oedd hi'n meddwl amdani hi ei hun fel arlunydd Pop, cafodd ei dylanwadu gan y mudiad a daeth yn ffrindiau ag artistiaid fel Roy Lichtenstein. Mae Celf Pop yn defnyddio lliwiau cryf a siapiau beiddgar, gan ddod o hyd i'w ysbrydoliaeth o fywyd bob dydd: o ganiau cawl i bortreadau o enwogion yr oes fel Marilyn Monroe.

Mae'r arddangosfa *Riot of Objects* ym MOSTYN yn cyflwyno gwaith cerameg wedi'u gwneud â llaw sy'n dyddio o'r 1950au i'r 1990au. Fe'u torrir o slabiau gan ddefnyddio stensiliau, maent wedi'u lliwio'n llachar ac yn rhagamcanu synnwyr digrifwch yr artist.

Edrychwch ar y gwaith Kiki Kogelnik, gan ddefnyddio'r dolenni isod.

<https://www.mostyn.org/exhibition/kiki-kogelnik>

<https://www.kikikogelnikfoundation.org/>

Os hoffech mynd â phethau ymhellach, ceisiwch chwilio 'Pop Art'.

Nodiadau ar gyfer athrawon a rhieni

Sut i ddefnyddio'r pecyn yma

Cynhyrchwyd y pecyn hwn gyda phlant oed ysgol gynradd mewn golwg, er nad oes terfyn oedran.

Gellir gwneud yr holl dasgau gartref, gyda fynediad i'r rhynggrwyd a rhai eitemau cartref sylfaenol.

Mae'n ddefnyddiol dilyn y tasgau mewn trefn.

Mae'r pecyn yn cynnwys y canlynol:

Bywgraffiad artist: gwybodaeth am yr artist a chyd-destun y mudiad Celf Bop.

Ymchwil: dolenni i ddelweddau a gwybodaeth bellach am yr artist.

Gêm benderfynu: efallai y bydd rhai plant yn ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau ynghylch sut y dylai eu celf edrych. Defnyddiwch y gêm hon i leihau'r pwysau.

Tasg gwneud clai: ryseitiau sy'n defnyddio cynhwysion cartref cyffredin. Mae'r holl glai yn aer-sych. Argymhellir goruchwyliaeth rhieni i sicrhau nad yw'r gymysgedd clai yn cael ei amlyncu. Byddwch yn ymwybodol bod y ryseitiau hyn yn cynnwys rhai alergenau.

Tasg fodelu: gadewch i'ch plentyn archwilio'r gwead a gweld pa siapiau y gallant eu gwneud. Edrychwch yn ôl ar ddelweddau o waith Kiki os ydych yn cael trafferth. Mae yna ychydig o awgrymiadau ymarferol yn y llyfryn hwn i'ch helpu chi, ond dyma gyfle i'r dychymyg redeg yn wyllt!

Gêm eirfa: ceisiwch annog defnyddio ansoddeiriau newydd a magu hyder mewn iaith ddisgrifiadol trwy chwarae'r gêm ddisgrifio.

Os hoffech gysylltu â ni, neu os hoffech chi rannu delweddau o'ch cerfluniau gyda MOSTYN, e-bostiwch engagement@mostyn.org

Nawr ein bod wedi cael ein hysbrydoli gan edrych ar waith Kiki Kogelnik, gadewch inni wneud rhywfaint o gelf!



Kiki Kogelnik Gmundner Kopf 2
(Gmundner Head 2) 1995.
Cerameg gwydrog.
Trwy garedigrwydd Kiki Kogelnik Foundation.
© 1995 Kiki Kogelnik Foundation.
Cedwir pob hawl.

Mae yna gyfarwyddiadau ar y tudalennau nesaf ar sut i wneud eich cerflun eich hun.

Byddwn yn:

Chwarae gêm i benderfynu sut mae ein cerflun yn mynd i edrych.

Defnyddiwch ryseitiau i wneud ein clai ein hunain.

Chwarae gêm ddisgrifio i ddatblygu geirfa.

Ar y dudalen nesaf mae coeden benderfynu. Bydd yn eich helpu i benderfynu sut fydd eich cerflun neu lun yn edrych.

Bydd angen darn arian arnoch cyn i chi ddechrau.

Dechreuwch ar y top a fflipiwch y darn arian. Os yw'r darn arian yn dweud 'pen', dilynwch y saeth binc, os yw'r darn arian yn dweud 'cynffon', dilynwch y saeth werdd. Fflipiwch y darn arian ar gyfer pob cwestiwn.

Gall pob gair rydych chi'n glanio arno ysbrydoli'r cerflun rydych chi'n ei wneud. Er enghraifft, os glaniwch ar 'hunanbortread', 'melyn', 'cynnwrf' ac 'aeliau', efallai y byddwch yn creu cerflun melyn, llawn cyffro ohonoch eich hun gydag aeliau mawr!

Mae yna rai termau allweddol (wedi'u tanlinellu). Fe'u heglurir ar waelod y dudalen hon.



Coeden benderfynu

Pwy yw fy nhestun?

Mae'n hunan bortread.
Pa liw cynradd byddaf
yn defnyddio?

Mae'n bortread o
rywun arall.
Pa liw cynradd
byddaf yn defnyddio?

COCH.

MELYN.

GLAS.

COCH.

Pa emosiwn
fyddai'n dangos?

Pa emosiwn
fyddai'n dangos?

Pa emosiwn
fyddai'n dangos?

Pa emosiwn
fyddai'n dangos?

DICTER.
Beth yw fy
nodwedd
wyneb
allweddol?

CARIAD.
Beth yw fy
nodwedd
wyneb
allweddol?

HAPUSRWYDD.
Beth yw fy
nodwedd
wyneb
allweddol?

CYNNWRF.
Beth yw fy
nodwedd
wyneb
allweddol?

TRISTWCH.
Beth yw fy
nodwedd
wyneb
allweddol?

CYSGADRWYDD.
Beth yw fy
nodwedd
wyneb
allweddol?

DICTER.
Beth yw fy
nodwedd
wyneb
allweddol?

CARIAD.
Beth yw fy
nodwedd
wyneb
allweddol?

Llygaid.

Ceg.

Ceg.

Aeliau.

Trwyn.

Aeliau.

Clustiau.

Bochau.

Aeliau.

Bochau.

Ceg.

Aeliau.

Llygaid.

Trwyn.

Ceg.

Llygaid.

Testun - beth neu bwy yw eich delwedd

Portread - gwaith celf o berson neu wyneb

Hunan bortread - gwaith celf o'ch wyneb eich hun

Emosiwn - teimladau fel tristwch neu lawenydd

Lliw cynradd - coch, melyn a glas yw'r tri lliw cynradd

Nodwedd wyneb - rhan o'ch wyneb fel eich llygaid neu'ch trwyn

Cardiau rysâit ar gyfer clai cartref

Dim clai gartref? Peidiwch â phoeni! Dyma rai ryseitiau gwahanol i wneud eich clai eich hun gartref. Mae'r tri rysâit hyn yn aer-sych.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gofyn i'ch oedolyn eich helpu chi. Rhybudd alergedd: mae'r ryseitiau hyn yn cynnwys glwten ac alergenau eraill.

Clai Modelu Perffaith

Mae gan y rysâit hon lawer o gynhwysion, ond mae'n gwneud clai gwych.

250g o flawd
125 ml PVA
1 llwy fwrdd o olew coginio
1 llwy fwrdd o leithydd (neu fwy yn ôl yr angen)
1 llwy fwrdd o finegr
1 llwy fwrdd o bowdr pobi (dewisol)
125 ml o ddŵr
80g o flawd corn

Clai blawd corn

Dyma opsiwn arall i geisio os nad oes gennych flawd. Mae'n well defnyddio'r clai hwn ar wyneb gwastad a'i ddefnyddio ar gyfer gwaith 2D (clai torrwr cwci).

1 rhan PVA
2 ran blawd corn

Yn syml, cymysgu, rollo allan a defnyddio.

Clai toes halen sylfaenol


Mae toes halen yn wych ar gyfer modelu sylfaenol. Efallai y bydd yn mynd yn fowldig ar ôl ychydig, ond mae'n hynod gyflym a hawdd

2 ran blawd
1 rhan halen
1 rhan ddŵr

Cymysgwch y blawd a'r halen. Nesaf, ychwanegwch y dŵr yn araf nes bod gennych glai cysondeb da




Awgrymiadau




Dechreuwch trwy rannu'ch clai yn 2 ddarn. Defnyddiwch hanner ar gyfer siâp sylfaenol y pen, a'r llall i ychwanegu nodweddion wyneb.




Defnyddiwch ffyn lolipop i ychwanegu cryfder at eich cerflun.



Clai yn rhy ludiog? Ychwanegwch fwy o flawd.
Clai yn rhy sych? Ychwanegwch fwy o hylif.



Rhowch orffeniad llyfn i'ch clai trwy ychwanegu ychydig ddiferion o ddŵr a'i lyfnhau â'ch bawd. Mae'n help dychmygu eich bod chi'n strocio cath!



Ydy'ch cerflun yn cymryd amser hir i sychu? Rhowch rhywle cynhesach.

Gêm ddisgrifio

Sut ydyn ni'n siarad am gelf?

Sut ydyn ni'n siarad am gelf Kiki Kogelnik?

Pa eiriau ydyn ni'n eu defnyddio?

Enghraifft: Pe bai'n rhaid i mi ddisgrifio gwaith Kiki Kogelnik, byddwn yn dweud ...

Sut i chwarae

Bydd angen rhywun arall i chwarae'r gêm. Gofynnwch iddyn nhw eistedd gyferbyn â chi, gyda phensil a phapur. Gwnewch yn siŵr nad ydyn nhw'n gallu gweld yr hyn rydych chi'n edrych arno.

Edrychwch ar y delweddau isod ond peidiwch â gadael i'ch partner eu gweld.

Mae angen i chi ddisgrifio'r ddelwedd gan ddefnyddio geiriau yn unig.

Mae angen i'ch partner wrando ar yr hyn rydych chi'n ei ddisgrifio, a'i luniadu. Ond mae yna dwist ... o dan bob delwedd mae geiriau na chaniateir i chi eu dweud.

Meddyliwch am yr holl eiriau sy'n disgrifio gwaith Kiki i'ch helpu chi.



Kiki Kogelnik
Untitled (Sea Monster), c. 1974.
Cerameg gwydrog.
Trwy gareidgrwydd Kiki Kogelnik
Foundation.
© 1974 Kiki Kogelnik Foundation.
Cedwir pob hawl.

**Peidiwch â dweud:
Brawychus, anghenfil**



Kiki Kogelnik
Blue Clone, c. 1989.
Cerameg gwydrog.
Trwy gareidgrwydd Kiki Kogelnik
Foundation.
© 1989 Kiki Kogelnik Foundation.
Cedwir pob hawl.

**Peidiwch â dweud:
Glas, unigryw**



Kiki Kogelnik
Untitled, c. 1986.
Cerameg gwydrog.
Trwy gareidgrwydd Kiki Kogelnik
Foundation.
© 1986 Kiki Kogelnik Foundation.
Cedwir pob hawl.

**Peidiwch â dweud:
Neis, lliwgar**



Kiki Kogelnik
Gelber Morgen (Yellow Morning),
c. 1986.
Cerameg gwydrog.
Trwy gareidgrwydd Kiki Kogelnik
Foundation.
© 1986 Kiki Kogelnik Foundation.
Cedwir pob hawl.

**Peidiwch â dweud:
Creadigol, rhyfedd**

Sut wnaethoch chi? Ydy'r lluniadau'n edrych fel y lluniau?

MOSTYN

www.mostyn.org

engagement@mostyn.org



[mostyngallery](https://www.facebook.com/mostyngallery)



[mostyn_wales_](https://twitter.com/mostyn_wales_)



[mostyngallery](https://www.instagram.com/mostyngallery)